# Safle Carafannau a Gwersylla Parc Gwledig Pen-bre

## Amodau Archebu

Mae'r amodau archebu lle hyn yn berthnasol i Garafannau a Gwersyllwyr oni bai y nodir yn wahanol.

Mae "**Parc**" yn cyfeirio at Barc Gwledig Pen-bre a'r safle gwersylla.

Ystyr "**Safle**" yw'r ardaloedd dynodedig ar gyfer gwersyllwyr tymhorol ac ad-hoc.

Mae "**Y Cyngor**" yn golygu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae "**Telerau**" yn golygu'r Rheolau a'r Rheoliadau, Telerau ac Amodau, Amodau Archebu ac Amodau'r Parc.

Mae'r term "**cwsmeriaid**" yn golygu pawb ac yn cynnwys; Carafannau a Gwersyllwyr dros nos a Charafannau Tymhorol a'r rhai sy'n ymweld â'r Parc.

Mae'r term "**Deiliad y Contract**" yn golygu'r person/personau sydd wedi archebu.

**Cytundeb Contractiol**

Trwy archebu lle, byddwch yn gyfrifol am wneud yr holl daliadau sy'n ddyledus fel rhan o'r archeb.

Mae'r unigolyn sy'n archebu'r lle yn gyfrifol am ymddygiad ei grŵp a bydd ei ymwelwyr yn rhwym i'r Amodau Archebu a'r Rheolau a'r Rheoliadau.

Mae Safle Gwersylla Parc Gwledig Pen-bre ar agor rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref 2025.

Caiff pob llain ei neilltuo ar gyfer y cyfnod a archebir yn unig ac ni fydd unrhyw hawl i ddeiliadaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Os canfyddir eich bod wedi dewis y math anghywir o uned nad yw'n addas ar gyfer y llain a archebwyd, efallai y gwrthodir mynediad i chi wrth gyrraedd heb unrhyw ad-daliad yn berthnasol.

**Cyfyngiadau Oedran**

Rhaid i bawb sy'n gwneud archeb fod yn 18 oed neu'n hŷn. Ni chaiff unrhyw un o dan 18 oed aros dros nos yn y safle gwersylla heb oruchwyliaeth oedolyn

**Telerau Talu**

- Mae angen y Taliad Llawn wrth archebu.

Rhaid i'r un sy'n archebu'n wreiddiol beidio â gwerthu; neilltuo neu is-osod eu carafán / cartref modur / pabell. Mae'r safle at ddefnydd personol yn unig a bydd unrhyw un sy'n cael ei ddal yn gwneud hyn yn fforffedu ei gytundeb â'r safle yn awtomatig a gofynnir iddo symud ei uned a bydd angen talu'r ffioedd yn llawn.

Mae'r holl gyfraddau a ddyfynnir yn cynnwys TAW ar y cyfraddau sy'n bodoli ar y pryd.

Nid yw'r ffioedd yn cynnwys mynediad i unrhyw ddigwyddiadau sydd yn gofyn am docynnau neu atyniadau ychwanegol yn y parc.

**Hyd arhosiad ar gyfer pebyll**

Caniateir i wersyllwyr aros am 14 noson ar y mwyaf, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'ch symud i leoliad arall bob 7 noson os bydd angen er mwyn lleihau difrod i'r tir gymaint â phosibl.

**Hyd yr arhosiad ar gyfer carafannau/cartrefi modur**

Caniateir i garafannau aros am 42 noson ar y mwyaf, ac eithrio carafannau tymhorol. Os oes lleiniau tymor yr hydref ar gael.

**Maint Parti**

Caniateir uchafswm archeb grŵp o **3** uned gyda'i gilydd gydag uchafswm o 8 person fesul uned (uchafswm o 4 oedolyn). Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi adael a chanslo eich archeb heb ad-daliad os ydych yn torri'r telerau hyn.

Mae'r holl gyfraddau a ddyfynnir yn cynnwys TAW ar y cyfraddau sy'n bodoli ar y pryd.

Nid yw ffioedd y safle gwersylla yn cynnwys mynediad i unrhyw ddigwyddiadau sydd yn gofyn am docynnau neu atyniadau ychwanegol.

**Canslo / Ad-daliadau**

- I gael eich ystyried ar gyfer ad-daliad, mae'n rhaid i'r sawl a archebodd y lle yn wreiddiol anfon cais i ganslo'r lle mewn neges e-bost at camppembrey@sirgar.gov.uk gyda chyfeirnod eich archeb. **RHAID** gwneud y cais fwy nag **1 wythnos** (168 awr) o'r amser y disgwylir i chi gyrraedd (2pm fydd yr amser cyrraedd). Bydd ffi weinyddol o 10% yn cael ei didynnu cyn i ad-daliad gael ei roi; ein nod yw cyflwyno ad-daliadau o fewn 7 diwrnod i'r cais.
- Gellir rhoi ad-daliadau'n unig i'r cerdyn a ddefnyddiwyd i wneud y taliad
- **Cynghorir cwsmeriaid i drefnu yswiriant gwyliau i'w diogelu yn achos canslo.**
- Ni fydd unrhyw ad-daliadau neu ostyngiad o ran ffioedd os na fydd cyfleusterau/atyniadau ar gael yn ystod eich arhosiad.
- Ni fydd methu â chyrraedd am unrhyw reswm yn unol â'r Amodau Archebu Lle hyn yn rhoi hawl ichi gael ad-daliad.

**Tywydd gwlyb a rhesymau eraill dros ganslo**

- Ni roddir ad-daliadau oherwydd amodau tywydd sy'n arwain at fethu â defnyddio'r safle gwersylla. Nac ychwaith am ffactorau amgylcheddol eraill sydd allan o'n rheolaeth.

- Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu gyfyngu ar archebu lleoedd ar unrhyw adeg heb rybudd. Os bydd hyn yn digwydd, byddai ad-daliad pro rata yn cael ei roi ar gyfer y dyddiadau dan sylw, ond ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy o dan unrhyw amgylchiadau.

## Materion Cyfreithiol

**Difrod Safle ac Atebolrwydd**

- Bydd unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn difenwi neu'n achosi difrod i unrhyw adeiladau, offer neu eiddo yn y parc yn cael ei droi allan ar unwaith a'i erlyn. Deiliaid y cytundeb fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod / toriadau / colled a achosir ganddynt neu eu hymwelwyr neu eu plant i'r llain neu i unrhyw rai o gyfleusterau'r parc neu i eiddo gwersyllwyr eraill, a chodir tâl arnynt.
- Os ydych chi neu aelodau eich parti yn achosi difrod i eiddo ac offer y cyngor sydd wedi'u lleoli yn y parc, bydd y sawl sydd wedi archebu'n wreiddiol yn atebol am unrhyw ddifrod a achoswyd.
- Bydd yr holl gostau'n cael eu codi ar y sawl sydd wedi archebu'n wreiddiol.
- **Pan fo eiddo gwersyllwyr eraill yn cael ei ddifrodi, bydd y sawl sydd wedi archebu'n wreiddiol yn gyfrifol am dalu'r gost honno yn uniongyrchol i'r gwersyllwr arall.**

**Colled, Difrod ac Anaf**

Gadewir eich cerbydau, eu hategolion a'u cynnwys ar eich menter eich hun. Ni fydd y Cyngor, ei staff na'i asiantau yn atebol am golled neu ladrad unrhyw eiddo, na difrod iddo, tra ei fod yn y Parc, nac am unrhyw anaf, damwain neu anffawd i unrhyw unigolyn yn y parc, oni bai yr achoswyd neu y cyfrannwyd at hynny gan unrhyw esgeulustod neu ddiffyg ar ran y Cyngor neu ei weithwyr. **Mae'n rhaid i ddeiliaid y cytundeb sicrhau bod eu heiddo'n ddiogel ac wedi'i yswirio'n llawn rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl.**

**Arall**

Nid ydym yn fwriadol yn caniatáu i unrhyw westeion ddefnyddio neu ymweld â'n parciau os: (i) *oes ganddynt euogfarn droseddol sydd heb ddod i ben;* (*ii) oes ganddynt gofnod ar gofrestr droseddol (gan gynnwys y gofrestr troseddwyr rhyw);* (*iii) oes ganddynt unrhyw gofnod o unrhyw orchymyn sy'n nodi ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais, camdriniaeth, anhrefn gyhoeddus neu unrhyw fath arall o ymddygiad gwrthgymdeithasol;* (*iv) ydynt yn droseddwr rhyw a gafwyd yn euog, sy'n destun gofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003;* neu'n (v) destun Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol neu Hysbysiad Herwgydio Plentyn. Os na fyddwch yn datgelu'r wybodaeth hon amdanoch chi eich hun neu unrhyw un arall sy'n dod gyda chi, a bod y wybodaeth honno'n dod yn hysbys i ni yn ddiweddarach, rydym yn cadw'r hawl i ganslo'ch arhosiad a'i gwneud yn ofynnol i chi, a phawb arall sydd wedi dod gyda chi, adael y parc, heb ad-daliad.

# Safle Carafannau a Gwersylla Parc Gwledig Pen-bre

## Rheolau a'r Rheoliadau

Rydym eisiau i bawb gael arhosiad diogel a phleserus ym Mharc Gwledig Pen-bre a gofynnwn i'n holl gwsmeriaid ddilyn y rheolau a'r rheoliadau hyn.

Mae'r Rheolau a'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i Garafannau Tymhorol, Carafannau Dros Nos a Gwersyllwyr oni bai y nodir yn wahanol.

**Eich Cyfrifoldebau**

Mae'n orfodol cydymffurfio â rheolau. Y sawl sydd wedi archebu'n wreiddiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o'i grŵp, gan gynnwys unrhyw ymwelwyr, anifeiliaid anwes neu blant, yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau. Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i wahardd unigolion yn seiliedig ar dorri rheolau.

**Methu â chydymffurfio â'r Rheolau**

**Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau yn arwain at gymryd camau priodol, a allai gynnwys:**

- **A. Rhybudd llafar gan staff y Cyngor.**
- **B. Llythyr Ysgrifenedig a roddir yn bersonol ar y diwrnod ac yna rhybudd e-bost gan staff y cyngor**
- **C. Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i adael y safle.**
- **D. Gwrthod archebion yn y dyfodol.**
- **E. Cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Heddlu.**

Bydd y camau a gymerir yn adlewyrchu natur a difrifoldeb digwyddiad ac mae'n bosibl na fyddant yn dilyn y drefn a nodir uchod.
**Ni fydd** unrhyw un y gofynnir iddo adael yn cael iawndal nac ad-daliad.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un sydd wedi torri rheolau a rheoliadau'r Safle a/neu'r Parc, wedi torri is-ddeddfau lleol, wedi cael cais i adael y safle'n flaenorol neu wedi cael ei wrthod rhag dod i mewn i'r safle'n flaenorol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd unigolion rhag defnyddio'r Parc yn y dyfodol os yw cwsmer neu aelod o'r grŵp wedi torri'r rheolau a'r rheoliadau, neu wedi peryglu llesiant a diogelwch ymwelwyr eraill â'r parc a'i staff.

Os bydd unrhyw gwsmer yn cyflawni unrhyw drosedd neu gamymddygiad yn y Parc, yna mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd y person hwnnw o'r parc neu ganslo'r cytundeb i feddiannu'r safle. Bydd darpariaethau'r cymal hwn hefyd yn berthnasol lle na chyflawnir trosedd ond lle mae gweithgareddau fel achosi niwsans, aflonyddu domestig neu dwrw ac ati.

Mae'n rhaid talu am unrhyw ddifrod yn llawn cyn gadael y Parc.

Os na fyddwch yn symud eich carafán/cartref modur/pabell, bydd gan y Cyngor yr hawl i symud/storio'r cyfryw eitemau ac adennill y costau oddi wrthych. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw anaf, ddifrod neu golled a achosir i unrhyw eitem o'r fath na'i chynnwys wrth ei symud a'i storio.

**Dim Masnachu**

Ni chaniateir unrhyw fasnachu ym Mharc Gwledig Pen-bre (ac mae hyn yn cynnwys y safle gwersylla) heb gytundeb ysgrifenedig a chaniatâd y Rheolwr Masnachol a Chyfleusterau.Mae gan y rheolwyr yr hawl i ddiddymu archebion a mynediad i'r parc os canfyddir eich bod yn masnachu heb ganiatâd. Os canfyddir bod y rheol hon yn cael ei thorri, terfynir contractau a hynny ar unwaith.

**Aelodau'r Tîm Hamdden Awyr Agored**

Mae gan staff Cyngor Sir Caerfyrddin yr hawl i weithio mewn amgylchedd heb gamdriniaeth a gallai unrhyw fath o gam-drin, trais neu fygythiadau arwain at eich symud o'r safle gwersylla neu ganslo'ch llain. Yn yr achos hwn, ni fydd unrhyw iawndal nac ad-daliad ar gyfer unrhyw ffioedd a dalwyd.

Gall hyn fod ar sawl ffurf, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
rhegi • gweiddi • ymosod • brawychu • bygwth • galw enwau • rhwystro • dilyn/stelcian • enwi ar y cyfryngau cymdeithasol • ymddygiad ymosodol ysgrifenedig (e.e. e-bost/llythyrau ac ati)
neu unrhyw ymddygiad arall sy'n gwneud i'r aelod o'r tîm deimlo ei fod wedi'i ddychrynu, dan fygythiad neu'n anghyfforddus

**Cyrraedd y Safle Gwersylla**

Gallwch gyrraedd y safle gwersylla rhwng 2pm ac 8pm ond ystyriwch fod gyda'r nosweithiau yn dywyll ar ddechrau ac ar ddiwedd y tymor.

Y côd post ar gyfer Parc Gwledig Pen-bre yw SA16 OEJ. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr wedi'i lleoli ar y dde tua 500m i mewn o rwystr y brif fynedfa.

Mae'r ffordd fynediad i'r safle gwersylla ar y dde ar ôl mynd heibio i'r Ganolfan Ymwelwyr. Rhaid i bob ymwelydd gadw at y terfyn cyflymder.

**Mynediad i Barc Gwledig Pen-bre**

Mae'r Parc Gwledig a'r Safle Gwersylla yn gweithredu system rhwystrau adnabod cerbydau awtomataidd. Rhowch y platiau rhif cywir wrth archebu lle i sicrhau bod eich cerbyd yn cael ei adnabod. Mae'n bwysig bod y manylion cywir yn cael eu rhoi cyn cyrraedd (rhaid anfon unrhyw newidiadau atom ar e-bost o leiaf 24 awr cyn cyrraedd).

- Ar ôl i aelod o staff nodi eich bod wedi cyrraedd, bydd y rhwystr mynediad i Barc Gwledig Pen-bre yn agor yn awtomatig.
- RHAID I YRWYR BEIDIO â mynd trwy'r rhwystr hyd nes y bydd wedi AGOR YN LLAWN ac wedi gorffen symud.
- Mae'n rhaid i yrwyr fynd trwy'r rhwystr a PHEIDIO Â STOPIO hyd nes y bydd eu cerbyd a charafán yn gwbl glir o ardal y rhwystr.
- Mae system intercom sy'n weithredol 24 awr y dydd os ydych chi'n cael unrhyw broblemau.
- Rhaid i chi beidio â dilyn cerbyd o'ch blaen yn rhy agos, gallai hyn arwain at ddifrodi'r rhwystr a chi fyddai'n gyfrifol am hyn.

**Mynediad i'r Safle Gwersylla**

Ar y diwrnod cyrraedd, gofynnir ichi gyrraedd **rhwng 2pm ac 8pm yn unig.**

- Wrth gyrraedd, tynnwch i mewn i'r gilfan a bydd aelod o dîm y safle gwersylla yn mynd â chi i'ch llain ac yn esbonio sut i osod eich offer. Os na fyddwch yn gosod eich offer yn unol â'r cyngor a roddwyd, gofynnir i chi aildrefnu eich offer yn y ffordd gywir.
- Sicrhewch eich bod wedi darparu'r platiau rhif cywir cyn cyrraedd (mae angen o leiaf 24 awr o rybudd).
- Mae rhwystr wrth fynedfa'r safle gwersylla ac mae system adnabod rhifau cofrestru cerbydau yma hefyd. Gyrrwch at y rhwystr yn araf.
- Os nad ydych wedi darparu'r rhif cofrestru cywir ar gyfer eich cerbyd, NI fyddwch yn gallu cael mynediad i'r safle gwersylla. Rhaid i chi aros wrth y rhwystr i aelod o staff helpu neu wasgu'r botwm intercom ac aros am ateb.

**Ni chaniateir cofnodi eich bod wedi cyrraedd y safle gwersylla ar ôl 8pm**. Gofynnwn ble bynnag y bo modd i chi gyfyngu ar symud cerbydau o amgylch y safle gwersylla ar ôl 10pm er mwyn sicrhau bod cyn lleied o sŵn â phosibl.
**Rydym yn eich cynghori i wirio amseroedd machlud haul cyn cyrraedd fel nad ydych yn gosod eich offer yn y tywyllwch.**
Os yw eich cerbyd wedi ei gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad i'r parc a'r safle gwersylla ar bob adeg.

**Cyrraedd a Gadael y Parc**

Mae'n rhaid gadael pob llain erbyn 12 ganol dydd ar y diwrnod gadael. Gallwch symud eich cerbyd/uned i rannau eraill o'r parc a pharhau i ddefnyddio'r parc am weddill y dydd (hyd at 10pm) ond rhaid i chi adael y safle gwersylla erbyn canol dydd. **Ni roddir ad-daliadau am adael yn gynnar.**

Wrth adael y Parc, bydd y rhwystr yn agor yn awtomatig wrth i'ch cerbyd nesáu, cyhyd â'ch bod wedi rhoi'r rhif cofrestru cywir ar gyfer eich cerbyd.

Wrth i'r rhwystr godi, mae'n rhaid i yrwyr sicrhau eu bod yn stopio ar bellter diogel o'r rhwystr gan ganiatáu iddo agor yn ddirwystr. Unwaith eto, **RHAID I YRWYR BEIDIO** â mynd trwy'r rhwystr hyd nes y bydd wedi AGOR YN LLAWN ac wedi gorffen symud. Os bydd unrhyw broblemau, gwasgwch yr intercom. Ni ellir ad-dalu unrhyw docynnau parcio a brynir.

Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol ar unrhyw bryd.

## Eich Llain

**Defnyddio'r Llain**

Mae'n rhaid i'r llain gael ei defnyddio yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau hyn.

**Dewis eich Llain**
Mae yna opsiwn i ddewis eich llain, gallwch ddewis a thalu am uchafswm o 3 llain gyda'ch gilydd, fodd bynnag, fel yr archebwr chi fydd y 'person cyfrifol' am ymddygiad yr holl bartïon yn eich grŵp ac efallai y bydd archebion yn y dyfodol yn cael eu gwrthod os bydd aelodau'ch grŵp yn torri'r rheolau.

Weithiau mae amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth sy'n golygu efallai na fydd eich dewis ar gael; yn yr achos hwn byddwn bob amser yn ceisio bodloni eich dewis o ran yr hyn sydd orau gennych. Os nad ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd eich llain yn cael ei dyrannu ichi ar y diwrnod cyrraedd.

**Gosod y Llain**

- Bydd aelod o staff y safle gwersylla yn mynd â chi i'ch llain wrth gyrraedd ac yn rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i osod eich uned / adlen / cerbyd ac ati.
- Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i wersyllwyr symud eu pebyll neu eu cerbydau os teimlir y gallent achosi perygl iechyd a diogelwch neu amharu ar breifatrwydd gwersyllwyr eraill.
- Ni ddylai defnyddwyr dresmasu na rhwystro'r parth diogelwch o 3 metr yng nghefn pob llain.
- Mae pob llain yn 10m x 10m o ran maint. Dim ond un uned a ganiateir ar gyfer pob llain.
- Diffinnir uned fel pabell; pabell trelar; fan wersylla blygadwy; fan wersylla; cartref modur neu garafán deithiol.
- Mae'n rhaid i bobl fod mewn uned sy'n addas ar gyfer llety cysgu (nid car neu gasebo).
- Bydd dau gerbyd yn cael mynediad i'r safle gwersylla fesul llain, RHAID i un cerbyd ffitio o fewn y lle 10m x 10m, gallwch ddod ag ail gerbyd i mewn i'r safle gwersylla ond rhaid parcio hwn ym meysydd parcio'r safle gwersylla.
- Caniateir uchafswm o 8 pherson fesul uned/llain (uchafswm o 4 oedolyn).
- Ni chaniateir i unrhyw uned gael ei defnyddio fel lle cysgu ar gyfer nifer fwy o bobl ar unrhyw un adeg na'r nifer y mae'r uned wedi'i chynllunio i ddarparu ar ei gyfer.
- Ni all pobl o dan 18 oed fynychu heb oedolyn.
- Mae hwn yn barc ar gyfer carafannau teithiol ac ni allwn ddarparu ar gyfer y rhai sy'n defnyddio carafannau, pebyll, neu gartrefi modur at ddibenion preswyl neu gyflogaeth.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch preswylwyr yn defnyddio'r rhedfa ganolog a'r llwybrau cerdded dynodedig, peidiwch â chroesi lleiniau defnyddwyr eraill y safle gwersylla.

**Adlenni/Carafannau/Pebyll Trelar**

- Rydym yn caniatáu un adlen fesul llain; rhaid nodi hyn ar adeg archebu a dim ond os yw hyn yn cyd-fynd â'ch uned gysgu a'ch car o fewn y 10m x 10m.

- Ni chaniateir gwresogyddion chwythu trydanol mewn adlenni.
- Rhaid i chi beidio â gwefru eitemau trydanol mewn adlenni neu bebyll pan nad ydych yno.
- Os ceir tywydd gwael, bydd yn rhaid tynnu adlenni i lawr er mwyn osgoi difrod i'ch eiddo chi neu eiddo eraill. Rydym yn cynghori gwesteion i fod yn ystyriol o ragolygon y tywydd.
- Sicrhewch fod eich yswiriant yn cynnwys difrod i offer ychwanegol (fel adlenni) yn ogystal â'ch uned.

**Gasebos/Pebyll/Arall**

- Dim ond 1 babell a ganiateir o fewn ardal ddynodedig y llain.
- Mae'n rhaid i gasebos a phebyll ffitio o fewn y llain a ddyrannwyd (gan gynnwys rhaffau tynhau) yn ogystal ag un cerbyd.
- Caniateir atalfeydd gwynt generig cyhyd â'u bod yn cael eu cadw ymhell oddi wrth leiniau cyfagos a'u bod yn cael eu symud pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Ni chaniateir gwresogyddion chwythu trydanol mewn adlenni neu bebyll.

**Cerbydau**

- Caniateir un car fesul llain a rhaid ei gofrestru i'ch llain.  Mae ffi am ail gerbyd yn berthnasol os oes angen.
- Mae'n RHAID i un cerbyd ffitio o fewn y lle 10m x 10m. Rhaid parcio ail gerbyd (os yw'n berthnasol) ym meysydd parcio y safle gwersylla.
- Ni chaniateir i unrhyw berson gysgu mewn cerbyd nad yw wedi'i gynllunio at y diben hwnnw.
- Rhaid i bob cerbyd fod yn gyfreithiol ac mewn cyflwr addas ar gyfer y ffordd.
- Dim ond os yw'r car yn cael ei newid y gellir newid platiau rhif. Peidiwch â'u newid neu ofyn amdanynt ar gyfer teulu neu ffrindiau sy'n mynychu'r safle gan y bydd hyn yn cael ei wrthod.
- Rhaid i bob ymwelydd barcio y tu allan i'r safle gwersylla a cherdded i mewn, gallant dalu'r ffi barcio dyddiol yn y gorsafoedd talu.
- Gofynnir i yrwyr gadw at derfyn cyflymder o 5mya yn y safle gwersylla a therfyn cyflymder o 15mya yng ngweddill y parc.
- Gwaherddir reidio beiciau modur, sgwteri trydan, gwibgartiau trydan a beiciau cwad oddi ar y ffordd yn llwyr o fewn ffiniau'r Parc.
- Efallai na fydd modd i faniau a cherbydau masnachol barcio ar y llain os ydynt yn tresmasu ar y parth diogelwch o 3 metr.
- Mae'n rhaid i wersyllwyr sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ar y llwybrau a'r ffyrdd o ran cerbydau neu unrhyw bethau arall.
- Os yw unedau'n fawr iawn, bydd angen iddynt sicrhau bod y parth diogelwch 3 metr yng nghefn y llain yn cael ei gynnal bob amser.
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal ceir a cherbydau eraill rhag cael mynediad i'r safle gwersylla lle bo'n briodol.

**Gwefru Ceir Trydan**

- Mae pwyntiau trydan ar gyfer eitemau trydan y cartref yn eich uned yn unig ac **NID** ydynt i'w defnyddio i wefru unrhyw gerbydau gan gynnwys ceir, beiciau ac ati.

- Os ydych yn dymuno gwefru car, defnyddiwch y pwyntiau gwefru penodol ar gyfer cerbydau ym Maes Parcio 6 ac mae pwyntiau gwefru E-feiciau yn y maes parcio sgïo.
- Nid yw'r pwyntiau trydan wedi'u cynllunio i wefru cerbydau.

**Cynnal a Chadw Lleiniau**

- Mae'n rhaid i gwsmeriaid gadw eu llain a'r cyfleusterau'n lân ac yn daclus yn ystod eu harhosiad a gadael y llain a'r cyfleusterau yn eu cyflwr gwreiddiol.
- Wrth gyrraedd a gadael y safle mae'n bwysig eich bod yn cymryd gofal i beidio â difrodi eich llain.

## Diogelwch

**Cyflenwad Trydan, Cyflenwad Nwy a Diogelwch Tân**

- Mae'n rhaid diogelu meddianwyr carafannau a chartrefi modur ac mae diogelwch personol yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r holl feddianwyr gadw a chynnal offer diffodd tân ac mae'n rhaid cynnal a chadw'r synwyryddion mwg yn y garafán/cartref modur yn rheolaidd.
- Rhaid sicrhau bod poteli nwy yn ddiogel.
- Argymhellir y dylid cynnal archwiliadau blynyddol ar y ffliwiau nwy a'r system awyru a dylid hefyd wirio systemau trydanol yn rheolaidd.
- Mae'n rhaid i'r holl offer, fel dyfeisiau nwy a thrydan, cerbydau, offer gwersylla ac ati, a gyflenwir neu a ddefnyddir gan wersyllwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol, y rheoliadau a'r holl ofynion diogelwch.
- Deiliad y cytundeb sy'n gyfrifol am sicrhau bod cebl trydan y prif gyflenwad o'r pwynt cysylltu i'r uned yn ddiogel, a bod man cysylltu eich gosodiad eich hun yn ddiogel (rhaid bod ganddo RCD).
- Mae'n rhaid i'r cebl trydan fod o leiaf 15m o hyd i sicrhau y gallwch gyrraedd eich pwynt cysylltu.
- Mae'r pwyntiau cysylltu'n cydymffurfio â Safon Brydeinig BS EN 60309-2.
- Gall Lleiniau Trydan Talu Fesul Sesiwn ddarparu uchafswm o 16amps - uchafswm o 3.1kw ar unrhyw un adeg.
- Gall Lleiniau Wedi'u Gwasanaethu'n Llawn ddarparu uchafswm o 16amp - uchafswm o 3.1kw ar unrhyw un adeg.
- Gofynnwch i warden y safle gwersylla os ydych yn ansicr ar yr hyn y gallwch ei bweru o'ch cysylltiad.
- Os, am unrhyw reswm, bydd y cyflenwad trydan i'r pwynt cysylltu yn methu oherwydd bai'r Cyngor, byddwn yn ceisio trwsio hyn o fewn 24 awr. Lle bynnag y bo modd ac yn dibynnu ar argaeledd, byddwn yn eich symud i lain arall yn ystod yr amser hwn.
- Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw drydan a gollir sy'n gyfrifoldeb neu a achosir gan drydydd parti ac sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

**Lleiniau Trydan (Talu Fesul Sesiwn)**

**Sut i brynu eich trydan**

Prynwch ymlaen llaw cyn cyrraedd trwy eich ardal westeion y gallwch ddod o hyd iddi ar ein gwefan Sicrhau Archeb defnyddiwch eich cyfeirnod archebu, dewiswch 'Gweld Archeb' ac yna 'pethau ychwanegol'.
Fel arall, gallwch brynu ar y diwrnod trwy E Pitch, bydd angen PCP/ac yna 6 digid olaf eich cyfeirnod archebu ynghyd a'r pin sydd wedi'i leoli ar eich pwynt trydan ePitch | Hafan
Codir tal am drydan ar y gyfradd y mae'r cyflenwr yn ei godi arnom ni sydd tua 34c fesul kwh, gall hyn amrywio drwy gydol y tymor.
I weld eich defnydd cyfartalog gallwch wneud hyn ar hyn o bryd drwy'r porth ePitch, bydd hyn trwy ein hardal westeion yn y dyfodol.
Os yw'r balans ar eich cyfrif trydan yn cyrraedd £1.50, bydd neges destun rhybuddio yn cael ei hanfon o ePitch, fodd bynnag, dim ond 1 neges destun fydd yn cael ei hanfon ac os na fydd signal, efallai na fyddwch yn cael y neges hon, felly rydym yn argymell cadw llygad ar eich balans trwy ePitch.

Cyfeiriwch hefyd at y Cwestiynau ac Atebion ar ein gwefan Cwestiynau Cyffredin - Parc Gwledig a Thraeth Pen-bre

**Telerau ac Amodau Prynu**

Bydd unrhyw un sy'n ceisio derbyn trydan drwy unrhyw fodd twyllodrus yn cael ei droi allan o'r safle ar unwaith heb unrhyw iawndal nac ad-daliad am ei archeb.
Bydd unrhyw berson sy'n ceisio derbyn trydan o lain person arall yn cael ei droi allan o'r safle ar unwaith heb unrhyw iawndal nac ad-daliad am ei archeb.
Nid cyfrifoldeb Parc Gwledig Pen-bre yw unrhyw ddifrod i nwyddau deiliaid lleiniau (fel bwyd yn yr oergell) yn sgil peidio â chael digon o gredyd trydan.
Ni chaniateir defnyddio gwresogyddion Halogen oherwydd y foltedd uchel.

**Ad-daliadau**

Os nad ydych yn defnyddio eich holl drydan, peidiwch â phoeni, rydym yn ad-dalu'r gwahaniaeth minws tâl o £1.50 fesul trafodyn ar ôl eich arhosiad.

**Rydym yn cynghori eich bod dim ond yn prynu digon o drydan ar gyfer eich arhosiad, ac ni allwch drosglwyddo balansau i archebion yn y dyfodol.**

**Lleiniau wedi'u gwasanaethu'n llawn**

Mae ffioedd lleiniau wedi'u gwasanaethu'n llawn yn cynnwys trydan.

**Dŵr**

- Ar gyfer lleiniau sydd wedi'u gwasanaethu'n llawn bydd angen pibell o tua 20m o hyd i gyrraedd y pwynt dŵr.
- Gall lleiniau sydd wedi'u gwasanaethu'n llawn ddraenio dŵr gwastraff llwyd i'r draeniau a ddarperir (dŵr gwastraff o'r gawod a'r sinciau).

- Rhaid gwagio'r holl ddŵr gwastraff o doiledau i bwyntiau Elsan sydd wedi'u lleoli yn y safle gwersylla.
- Parchwch ein mesurydd dŵr; **peidiwch** â golchi ceir, cartrefi modur, a charafannau.

**Blociau Amwynder y Safle Gwersylla**

- Ceir dau floc amwynder.
- O fewn pob bloc amwynderau mae toiledau, toiled mynediad i'r anabl, cawodydd, ardal newid babanod ac ardaloedd newid i'r teulu .
- Y tu allan i bob bloc amwynder mae clos biniau, lle i olchi llestri a phwynt Elsan.
- Nid oes gennym olchdy na pheiriannau sychu dillad, mae'r golchdy agosaf wedi'i leoli yn nhref leol Porth Tywyn.
- Mae cyfleuster *Changing Places* ar gael yn y Ganolfan Sgïo.
- Bydd y cawodydd ar gau rhwng hanner nos a 5am, bydd y toiledau yn parhau ar agor yn ystod yr amseroedd hyn.
- Gadewch y cyfleusterau yn y cyflwr y byddech chi'n disgwyl dod o hyd iddyn nhw.
- Mae biniau gwastraff bwyd ar gael ger y sinciau ar gyfer golchi llestri, rhowch unrhyw wastraff bwyd mewn bag y gellir ei gompostio yn gyntaf ac yna yn y bin.
- Parchwch ein cyfleusterau, rhaid i blant o dan 10 oed gael eu goruchwylio ar bob adeg wrth ddefnyddio'r blociau amwynderau.
- Peidiwch ag yfed/bwyta/ysmygu na fepio yn y cyfleusterau.
- Ni chaniateir unrhyw feiciau/sgwteri yn y blociau amwynder.

**Gweithrediadau Glanhau**

- Mae'r blociau cyfleustodau yn cael eu glanhau'n llawn ddwywaith y dydd. Mae gennym gynorthwywyr gwrywaidd a benywaidd.
- Pan fydd gwaith glanhau'n cael ei wneud, bydd drysau priodol yn cael eu cloi ac arwyddion yn cael eu harddangos.
- Petai papur tŷ bach yn rhedeg allan rhwng sesiynau glanhau neu os nad yw'r bloc amwynder o'r safon y byddech yn ei disgwyl fel arfer, cysylltwch â warden y safle gwersylla.

**Tanau a Barbeciwiau**

- Ni chaniateir tanau gwersyll agored ar unrhyw adeg yn y Parc neu'r Safle Gwersylla.
- Caniateir barbeciwiau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain cyn belled ag y bo ganddynt glawr amddiffynnol a giard o'u hamgylch i atal llwch rhag chwythu ac nad ydynt yn aflonyddu ar bobl eraill.
- Caniateir pyllau tân sydd wedi'u gorchuddio, a wnaed at y diben hwn – sydd â chlawr rhwyllog, ac sydd oddi ar y tir, ar ôl iddynt gael eu gwirio gan wardeiniaid y safle gwersylla. Mae'n rhaid bod ganddynt giard o'u hamgylch i atal llwch rhag chwythu o gwmpas a pheidio ag aflonyddu ar bobl eraill.  Rhaid cael math o ddiffoddwr, megis bwced o ddŵr, potel ddŵr neu ddiffoddwr tân, wrth law tra bydd y tân yn llosgi.

- Ni chaniateir i chi osod barbeciwiau na phyllau tân bach yn uniongyrchol ar y tir. NI chaniateir defnyddio barbeciws tafladwy ar y safle oni bai eu bod yn 300mm (1 droedfedd) oddi ar y llawr oherwydd eu bod yn llosgi glaswellt ac yn achosi perygl.
- Mae'n rhaid diffodd barbeciwiau a phyllau tân yn llawn ar ôl eu defnyddio a gwaredu'r lludw mewn cynwysyddion priodol ar y safle, **NID MEWN PERTHI NAC ARDALOEDD GLASWELLTOG.** Gweler map y safle, sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn croeso, ar gyfer lleoliad y bin gwaredu barbeciwiau.
- Sicrhewch fod pob tân yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei oruchwylio.
- Sylwch, oherwydd amodau tywydd, y gall y rheolau hyn newid a gellid eu gwahardd yn ôl disgresiwn Warden y Safle Gwersylla heb rybudd ar unrhyw adeg.
- Ni chaniateir barbeciwiau a thanau ar y traeth ar unrhyw adeg.
- Ni chaniateir tân gwyllt, coelcerthi na lanternau Tsieineaidd yn y safle gwersylla, y parc gwledig nac ar y traeth.
- Os bydd llwch yn difrodi cerbydau neu eiddo cwsmer arall, bydd angen i'r mater gael ei ddatrys rhwng y ddau barti dan sylw.
- **NI** chaniateir tanau agored o unrhyw ddisgrifiad. Bydd unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n difrodi'r tir neu amgylchedd y Parc yn cael ei drin yn unol â'r manylion a amlinellir yn yr adran **METHU Â CHYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU.**

**Generaduron**

- Caniateir generaduron tawel bach. (Mae'n rhaid iddynt fod o lefel desibel isel ac yn addas i'w defnyddio ar safleoedd gwersylla/carafannau). Mae'n rhaid storio tanwydd mewn meintiau bychan ac mewn cynwysyddion bach a gymeradwyir at y diben hwn
- Rhaid i bob generadur a gyflenwir neu a ddefnyddir gan wersyllwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol a'r holl ofynion diogelwch.
- Gellir defnyddio'r generadur o bryd i'w gilydd ond mae defnydd parhaus ohono yn gyfyngedig i 2 awr ar un adeg, a dylid gadael bwlch o 1 awr o leiaf cyn ei ddefnyddio eto. Mae'r defnydd o generaduron wedi'i gyfyngu i rhwng 10am a 12 canol dydd a rhwng 5pm a 7pm.

**Os bydd tân mewn carafán, cartref modur, pabell neu yn y bloc amwynderau:**

- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn gadael yr uned/safle.
- Seiniwch y larwm
- Ffoniwch y Frigâd Dân (999) o'r ffôn agosaf neu gan ddefnyddio ffôn symudol.
- Gwrandewch ar yr holl gyfarwyddiadau gan aelodau staff a'u dilyn
- Dylai defnyddwyr y safle ymgynnull yn y man ymgynnull dynodedig agosaf.
- Cofiwch eich bod mewn ardal coetir sy'n tanio'n rhwydd iawn os yw'r amodau priodol yn bodoli.
- Dilynwch y Gweithdrefnau Tân a arddangosir o amgylch y safle gwersylla.
- Os bydd y safle gwersylla yn cael ei wacáu, mae'n rhaid ichi ddilyn cyfarwyddiadau staff y Cyngor.

**Rhoi gwybod am ddamweiniau ac argyfyngau**

Rhowch wybod i staff y Ganolfan Ymwelwyr neu Warden y Safle Gwersylla am unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau ar unwaith fel y gellir eu cofnodi a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

**Mewn argyfwng, neu os bydd tân, neu argyfwng meddygol, ffoniwch 999.**

**Anifeiliaid Anwes**

Mae croeso i gŵn, ond mae'r amodau canlynol yn berthnasol: -

- Mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser o fewn yr ardaloedd canlynol: -
- **Safle Gwersylla i gyd**
- O amgylch ardaloedd y bwyty
- O amgylch ardaloedd gweithgareddau fel golff
- O amgylch ardaloedd chwarae (ni chaniateir cŵn o fewn ardaloedd chwarae).

Gall cŵn sydd o dan reolaeth dda gael eu gadael oddi ar y tennyn mewn ardaloedd eraill o'r parc ond os gofynnir ichi roi eich ci yn ôl ar y tennyn gan aelod o staff, mae'n rhaid ichi eu rhoi nhw ar y tennyn.

- Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir o amser.
- Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth mewn cerbydau.
- Mae'n rhaid i berchenogion cŵn sicrhau nad yw eu hanifeiliaid anwes yn aflonyddu ar ddefnyddwyr eraill y safle.
- Mae'n rhaid i unrhyw faw gael ei glirio ar unwaith a'i roi yn y biniau gwastraff cyffredinol a ddarperir.
- Os bydd ci'n cnoi unigolyn neu anifail arall, rhoddir gwybod i'r awdurdod priodol ac ymchwilir i'r mater yn unol â hynny.
- **NI CHANIATEIR** cathod tŷ.
- Ni chaniateir cŵn yn ardaloedd chwarae'r plant.
- Dim mwy na 3 o gŵn fesul llain
- **Ni** chaniateir cŵn a ystyrir yn beryglus e.e. Daeargi Pydew (Pit Bull Terrier); Tosa Japaneaidd; Dogo Argentino; Fila Braziliera.

**Gwastraff**

**Sbwriel ac Ailgylchu**

Mae yna glosydd biniau yn y safle gwersylla ar gyfer eich gwastraff ac mae'n rhaid gwahanu'r holl wastraff a'i waredu yn y biniau perthnasol. Mae hon yn gyfraith gan Lywodraeth Cymru yn 2024 ar gyfer safleoedd gwersylla ac nid yw'n ddewisol. Dylid egluro hyn yn ofalus i blant os ydynt yn mynd â gwastraff i'r biniau

Dyma'r categorïau gwahanol: -

- **Bwyd**
- **Papur/Cerdyn**
- **Gwydr**
- **Metel, Plastig a Chartonau.**

Bydd gwneud hyn yn helpu ymrwymiadau Cymru i leihau allyriadau carbon a bod yn ddiwastraff erbyn 2050.

- Gwnewch yn siŵr fod y plastig, y gwydr a'r caniau yn cael eu golchi cyn eu rhoi yn y biniau ailgylchu. Bydd angen i chi fynd â nhw'n uniongyrchol i'r biniau cymunedol a'u didoli i'r biniau cywir.
- Ceir biniau hefyd ar gyfer gwastraff cyffredinol, ond gofynnwn ichi ddefnyddio'r rhain cyn lleied â phosibl.
- Gofynnwn i'n holl ymwelwyr ymuno â ni yn yr ymgyrch i leihau gwastraff a gweithio tuag at gyrraedd ein targedau ailgylchu.
- Sicrhewch eich bod yn gwagio'ch biniau i'r prif finiau cymunedol yn gyson.
- Peidiwch â gadael gweddillion bwyd allan i'r adar nac anifeiliaid eraill oherwydd y bydd hyn yn denu fermin. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn rhoi bagiau ar yr ochr, mae'n rhaid iddynt fynd yn y biniau cywir yn ôl yr arwydd.

**Tipio Anghyfreithlon**

- Mae'n rhaid mynd â'r holl eitemau mawr yr ydych am gael gwared arnynt a'u gwaredu oddi ar y safle a pheidio â'u gadael yn y safleoedd biniau.
- Ni chaniateir gwaredu beiciau, celfi nac eitemau trydanol. Gall unrhyw un sy'n gwneud hynny gael ei erlyn a'i ddirwyo am dipio anghyfreithlon. Ewch ag eitemau mawr adref gyda chi i'w gwaredu.

**Gwastraff Cemegol**

- Mae'n rhaid gwagio'r holl wastraff tŷ bach cemegol yn y pwyntiau gwastraff dynodedig Elsan. Peidiwch â rhoi unrhyw fath o weips gwlyb na chynnyrch mislif i lawr y rhain gan y byddant yn eu blocio.

**Gwastraff Glanweithiol**

- Darperir biniau glanweithiol yn y toiledau i fenywod ac yn y toiledau i bobl anabl o'r ddau ryw.
- Darperir biniau cewynnau yn y bloc tai bach ar gyfer newid cewynnau yn ardaloedd teuluol y ddau bloc amwynder.

## Rheolau a Rheoliadau Eraill

**Sŵn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae hwn yn safle gwersylla sy'n addas i deuluoedd, ac nid ydym yn annog archebion grŵp mawr, gellir archebu uchafswm o dri grŵp gyda'i gilydd (3 uned). Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi adael a chanslo eich archeb heb ad-daliad os ydych yn torri'r telerau hyn.

Ein hamser tawel yw rhwng 10.30pm ac 8am a gofynnwn ichi wneud yn siŵr nad yw unrhyw gerddoriaeth, sŵn teledu a chlebran yn tarfu ar wersyllwyr eraill.

- Ni chaniateir cerddoriaeth uchel na cherddoriaeth drwy uchel seinydd ar unrhyw adeg.
- Ni chaniateir gadael injan eich car i redeg ar unrhyw adeg.

Cofiwch fod ymwelwyr eraill yma i fwynhau eu harhosiad, felly dim iaith ddrwg gan neb. Os gwneir cwynion gan wersyllwyr eraill bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i hyn ac efallai y gofynnir i chi adael y safle gwersylla.

**Gweithgareddau Hamdden**

- Mae sawl cyfleuster yn y parc megis y Gylchffordd Gaeedig Genedlaethol, traeth; ardaloedd chwarae; llwybr yr arth; am ddim i'w defnyddio.
- Mae'r gweithgareddau canlynol yn destun ffioedd ychwanegol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn eich ffioedd: gwallgolff; golff disc; golff pitsio a phytio; golff-troed, gweithgareddau'r ganolfan sgïo; rhedfa dobogan; hurio beiciau.
- Gellir archebu'r gweithgareddau hyn cyn cyrraedd trwy [Cynllunio eich Ymweliad - Traeth a Pharc Gwledig Pen-bre]
- Mae gweithgareddau eraill yn y parc fel gwersi syrffio, tag laser a'r rheilffordd fechan, y gylchffordd gaeedig genedlaethol a saethyddiaeth yn cael eu cynnal gan weithredwyr preifat. Mae dolenni i'w tudalennau gwe er mwyn cael rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar y dudalen 'Cynllunio eich Ymweliad'.
- Rhaid peidio â chwarae pêl-droed/criced/tenis ac ati ar y safle gwersylla oherwydd y difrod y gallai hyn ei achosi i eiddo pobl. Beth am roi cynnig ar fadminton, neu chwarae’r gemau hyn yn y parc neu yn yr ardal chwarae bach.
- Rydym wrth ein boddau yn gweld pobl yn beicio, ac rydym yn annog pawb i ddefnyddio eu beiciau ond rydym yn gofyn i bobl eu defnyddio'n ddiogel a pheidio â mynd rhwng lleiniau pobl eraill.
- Mae gan y parc lwybr pwmpio, y Gylchffordd Gaeedig Genedlaethol a llwybr arfordirol gwych.
- Ni chaniateir defnyddio e-sgwteri na gwibgartiau trydan yn y parc neu'r safle gwersylla ar unrhyw adeg. Maent yn anghyfreithlon i'w defnyddio yng Nghymru.
- Ni chaniateir defnyddio / hedfan dronau, awyrennau model ac offer tebyg arall o fewn y safle gwersylla, na'r parc nac ar unrhyw eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin heb ganiatâd ysgrifenedig.
- Ni chaniateir pysgota; nofio; cychod neu badlo o fewn y pyllau yn y parc.

**Plant**

- Nodwch fod yn rhaid i bob plentyn gael ei oruchwylio bob amser yn y safle gwersylla a'r parc gwledig.
- Mae'n rhaid i blant (o dan 18 oed) **BEIDIO** â chael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn y Parc neu'r safle gwersylla.
- Peidiwch â gadael i blant chwarae o amgylch y tapiau dŵr, dŵr yfed yw'r rhain ac nid ar gyfer llenwi balŵns dŵr. Parchwch ein mesurydd dŵr hefyd a pheidiwch â golchi carafannau.
- Os canfyddir bod eich plentyn neu blentyn o fewn eich parti yn difrodi offer (fel reidiau yn y maes chwarae neu reidiau ffair) ystyrir bod hyn yn torri'r rheolau a'r rheoliadau a bydd y broses o dorri'r telerau yn berthnasol. Fel y sawl a archebodd y lle yn wreiddiol byddech hefyd yn atebol am unrhyw ddifrod a achoswyd.
- Rhowch wybod i blant yn eich grŵp i dalu sylw at unrhyw beth y mae swyddog cyngor yn gofyn iddynt ei wneud (neu stopio ei wneud!).

**Plant ar Goll**

Os bydd plentyn yn mynd ar goll, dylai rhieni neu warcheidwaid gysylltu â'r gwasanaethau brys os teimlant fod angen gwneud hynny. Cysylltwch ag unrhyw aelod o staff a fydd yn eich cynorthwyo hyd nes y bydd y gwasanaethau brys yn cyrraedd neu y deuir o hyd i'r plentyn.

**Staff y Safle Gwersylla, Cwynion a Rhoi Gwybod am Faterion**

- Os oes gennych gŵyn neu os hoffech roi gwybod am fater, defnyddiwch y weithdrefn ganlynol: -
- Yn y lle cyntaf, siaradwch ag aelod o staff y safle gwersylla lle byddant yn ceisio delio â'ch materion ar unwaith.
- Os nad ydych yn fodlon bod eich mater wedi'i ddatrys, yna bydd warden y safle gwersylla yn cael ei alw i ddelio â'r mater.
- Os nad ydych yn fodlon bod eich problem wedi'i ddatrys o hyd, yna anfonwch e-bost at camppembrey@sirgar.gov.uk ac yna bydd y Rheolwr Gweithrediadau neu yn ei absenoldeb y Rheolwr Busnes yn ceisio datrys ac ymateb i chi gyda'r camau sydd wedi'u cymryd.
- Os nad ydych yn fodlon ar ôl hyn, bydd angen gwneud cwyn trwy dîm cwynion corfforaethol y cyngor. Sylwadau Cwynion a Chanmoliaeth - Fy Nghyfrif

- Gall wardeiniaid y safle gwersylla roi cyfarwyddyd i wersyllwyr adael eu llain ar unwaith os oes unrhyw un o'r rheolau a'r rheoliadau wedi'u torri neu yn dilyn cwyn ddifrifol.
- Mae wardeiniaid y safle gwersylla ar gael rhwng 12 canol dydd ac 8pm bob dydd yn ystod y tymor.
- Mae staff y safle gwersylla ar gael, ar gyfer argyfyngau yn unig, rhwng 8pm a 9am. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor rhwng 10am a 4pm bob dydd yn ystod y tymor.

**Mae gan bob aelod o staff yr hawl i gael ei drin â pharch. Mae trais, ymddygiad ymosodol, aflonyddu neu ddychrynu yn annerbyniol ar unrhyw ffurf.**

## Arall

**Ymwelwyr**

- Caniateir ymwelwyr â'r safle gwersylla ond mae'n ofynnol iddynt dalu cyfraddau parcio dyddiol y parc gwledig p'un a ydynt yn defnyddio'r cyfleusterau eraill o fewn y parc ai peidio.
- Nid yw ymwelwyr yn gallu parcio o fewn y safle gwersylla. Ceir sawl maes parcio gerllaw.

**Ysmygu**

- Mae ysmygu/sigaréts electronig wedi eu gwahardd o fewn pob adeilad yn y parc.

**Sylweddau Anghyfreithlon/Arfau Ymosodol**

- Ni chaniateir i chi ddod â sylweddau anghyfreithlon nac arfau ymosodol i'r Parc. Os darganfyddir neu ddrwgdybir bod gennych unrhyw sylweddau anghyfreithlon, caiff hyn ei riportio i'r Heddlu.

**Bywyd Gwyllt yn y Safle Gwersylla**

- Mae'r safle gwersylla a'r parc gwledig cyfagos yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, gan gynnwys llwynogod, moch daear, gwiwerod llwyd, gwaddod, picwns coch (hornets), picwns, gwenyn a morgrug.
- Mae presenoldeb bywyd gwyllt yn rhan o gael safle gwersylla yng nghefn gwlad.
- Cynghorir gwesteion i roi gwybod am unrhyw broblem a gofyn am gyngor gan dîm y safle gwersylla a all gynnig cyngor wrth osod offer.
- Ni chaniateir i unrhyw westai i'r safle gwersylla gynnal unrhyw weithgaredd a fydd yn achosi niwed i fywyd gwyllt.
- Mae'r holl fywyd gwyllt ar eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i warchod.
- Caniateir defnyddio powdr morgrug yn rhesymol ond ni chaniateir defnyddio plaladdwyr eraill.

**Gwaith Adeiladu**

O bryd i'w gilydd, bydd angen gwneud gwaith adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw yn y Parc, y Safle neu yng nghyffiniau'r Parc, a bydd rheolwyr yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi lle bynnag y bo modd.

Pan fydd angen gwneud gwaith o'r fath, ni fydd hyn yn rhoi hawl i unrhyw un neu unrhyw ddeiliad llain i gael ad-daliad llawn neu rannol.

**Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid, addasu, ychwanegu at neu dynnu yn ôl y Rheolau a'r Rheoliadau hyn heb rybudd ymlaen llaw.**

**Darllenwch Reolau'r Parc Gwledig ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth**

**Rhifau Ffôn Defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| **Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Pen-bre** | **01554 742435** |
| **Warden ar alwad – Ar gyfer argyfyngau yn unig rhwng 20:00 a 08:00** | **07795646322** |
| **Gorsaf Heddlu Porth Tywyn** | **01267 222020** |
| **Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Heol Dolgwili, Caerfyrddin, SA31 2AF (Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr)** | **01267 235151** |
| **Galw Iechyd Cymru** | **0845 46 47** |

**Parc Gwledig Pen-bre**
Pen-bre, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA16 OEJ

☎ 01554 742435

www.parcgwledigpenbre.cymru

: camppembrey@sirgar.gov.uk